**Ofcom Advisory Committee for Wales**
**Response to Ofcom consultation on the BBC's request to change the Operating Licence: Proposed Changes to Requirements for BBC Radio 5 Live, BBC Radio 2 and Programming of a National or Regional Interest**.

**Introduction**
The Advisory Committee for Wales (ACW) was established by the 2003 Communications Act and our primary function is to provide advice to Ofcom regarding the interests of citizens and consumers in Wales in relation to communications matters. We are a non-executive body, and we have an 'arms-length' relationship with Ofcom, which is not formerly bound by any advice given by us. The views given in this paper are those of the Ofcom ACW and they do not represent the opinion of the Ofcom Board or staff.

The ACW responded to Ofcom's consultation, "Modernising the BBC's Operating Licence" back in September 2022 and our response reflected our previous views submitted to Ofcom in March 2021 in relation to Ofcom's Small Screen Big Debate consultation. In both responses we argued that the requirements regarding BBC Cymru Wales' non-news television programme output made specifically for viewers in Wales, should, "*arguably, be freed up to make investment decisions that bring higher quality to the screen, rather than always being tied to specific hours-based delivery requirements*." But we also recognised that essential genres such as news and current affairs provided specifically for Welsh audiences should be protected in any new licence.

In our response to this consultation, based on new proposals by provided by the BBC, we have focussed specifically on the BBC's request to make changes to provisions in the draft licence relating to what they have called 'programming of a national or regional interest'.

We noted in our previous consultation responses that the current BBC Operating Licence, requires BBC Cymru Wales to deliver 275 hours of news and current affairs on BBC One Wales for viewers in Wales, along with 65 hours of non-news programmes and 175 hours of non-news programmes on BBC Two Wales. We also noted that in the current licence there is no requirement for the non-news hours to be first run, new programming. However, we welcome the inclusion of a requirement for first-run originations in the new draft licence which we believe is very important. As we noted in our previous response, "*the BBC will be under severe pressures to save costs in the future and ensuring the production of some new programming for Wales will counteract the temptation to fill the service with repeats*".

In relation to BBC Cymru Wales we suggested that, "*the current requirements for non-news programming, particularly on BBC Two Wales at 175 hours annually, appear to us to be very high and in future years they risk diluting the available production budget, given the current freeze on licence fee income*". In line with Ofcom's analysis we argued that use of iPlayer and the BBC's other online services was likely to increase, while hours of viewing to linear television would continue to fall, adding that "*in this context, the requirement to produce non-news hours for BBC Two Wales may result in content that lacks reach and impact*."

We therefore welcome the BBC's aspiration in its response to improve its programming for the Nations to invest more in high-quality, high-impact local content that could be shown on the network. While we recognise, along with Ofcom, that this new approach could result in a decrease in the amount of lower budget commissions made specifically for viewers in Wales, we agree with

Ofcom's analysis that this new strategy potentially delivers significant benefits for viewers in Wales and across the UK. We agree that the new strategy could provide, "*better portrayal and representation of communities across the UK through locally commissioned content, and the availability of high-quality local programming to the whole of the UK as well as the Nations*.[1]" Ofcom also suggests that the strategy would provide opportunities for Wales' independent producers by offering access to greater investment and increased budgets. However, we believe that greater transparency will be required to ensure commissioning decisions for this content continue to be made in Wales and that tariffs comparable to network rates would apply to such productions where it was clear this programming would be broadcast and made available online to viewers across the UK as well as in Wales.

**Question 3**: *Do you agree with Ofcom's provisional assessment and its proposed changes to the Operating Licence for Programmes of a national or regional interest? If not, please explain why, providing appropriate supporting evidence where possible*.

**Programmes of a national or regional interest**
We welcome the BBC's intention to set a target for at least 60% of its network TV commissions by spend to be made outside London by the end of the Charter. We agree that this aim should increase the representation and portrayal of audiences across the UK on the BBC's television services. As part of this process and given the changes in viewer behaviour and the move to greater digital consumption, we accept that the corporation has to "*reshape its services to strike a better balance between broadcast and online news across the UK's nations and regions*."

As explained earlier, we previously agreed with Ofcom's proposals in its June 2022 Consultation, to replace specific quotas for BBC Cymru Wales' non-news output with general conditions and transparency requirements, and we believe this less prescriptive approach should better serve audiences in Wales by providing the BBC with more flexibility to adapt its provision. Ofcom suggests as an example that this could include providing less hours of programming on a particular service or delivering content on iPlayer for those who prefer to view content online.

**News of a national or regional interest on BBC One Wales**
**Changes to programme length and scheduling:** We do not believe the minor scheduling changes regarding news bulletins proposed by the BBC will have a substantive impact on the quality of the service for viewers in Wales or the provision taken as a whole. The BBC's proposed changes are as follows (as they apply to its services for Wales):

- A change in the length of the 10.30pm news bulletin for Wales on BBC One Wales to minimise the overlap between it and the start of Newsnight on BBC Two. (The length of the bulletin has already reverted to 7 minutes after being increased to 11 minutes during the pandemic.)
- A drop of one of the six half-hourly news bulletins for Wales broadcast during BBC Breakfast. According to the BBC, audiences have found them repetitive and on average viewers watch the breakfast service long enough to see two of these bulletins.
- A change to the running order of the 10.30pm news slot in February 2022 so that the Wales news bulletin would start just outside of Peak Viewing Time.

[1] Page 5 Ofcom of the Consultation Document

We note that this would amount to a reduction of 5 to 6 minutes of news for Wales per day, but that the BBC has claimed that its online news service for Wales will improve. We would like to see some evidence provided by the BBC to support this claim. As noted in our previous response, we believe the current online service requirements, to be reproduced in the new licence appear to be rather inadequate and do not incentivise innovation and new creative content possibilities.

Overall, taking account of the proposed changes to news delivery for Wales we agree with Ofcom's plan to require the BBC to track whether its strategy for delivering news to all audiences is successful. We also support Ofcom's aim to undertake its own audience research to assess satisfaction and attitudes towards news in this area. In view of the civic importance of the BBC's news provision, we would recommend that some of this research be conducted with viewers in Wales (along with the other nations and regions).

The available data from Ofcom's previous Annual Reports on the BBC allowed us to see lower satisfaction amongst Welsh audiences (despite higher use), but this year's report is a little lighter on local references. In respect of Public Purpose 4 (representation and portrayal), Ofcom states that the perception of Welsh audiences is now in-line with the UK average, rather than more dissatisfied as in the past. But the BBC's own data suggests Welsh viewers still feel a little less satisfied. There is also growing concern about the BBC's reach within lower socio-economic groups[2].

**National and regional non-news programmes on BBC One Wales and BBC Two Wales**
<u>Increasing investment in more high impact content</u>: We welcome the BBC's ambition, expressed in its, 'Across the UK' commitment to commission a greater proportion of programmes from Wales (and the other nations) that would also be broadcast on the network. We note that the BBC claims such 'high impact' content would be commissioned with network tariffs. We believe this is a key commitment that would need to be carefully monitored by Ofcom to see that it achieves this objective. If the BBC can deliver on this commitment, then in our view this would offset the reduction in programmes made solely for viewers in Wales. The volume and quality of this output would need careful evaluation, paying regard to its reach and impact. However, we welcome this aspiration as a way of delivering distinctively Welsh based content to UK audiences and providing greater value on-screen.

Ofcom notes the strategy may risk diluting the distinctiveness of programmes produced specifically for the nations over time if they are also commissioned for network audiences, arguing that the "*high impact network content it* [the BBC] *plans to commission or co-commission from the nations and regions becomes more generic over time. Attempts to appeal to a wider audience may lead to this content having less relevance to the nation or region from which it is commissioned*". However, while acknowledging this risk, we believe it is worth taking if the strategy benefits viewers overall and increases the appeal, reach and impact of content commissioned specifically for Wales. The BBC claims it has addressed this issue by ensuring that "*commissioning decisions will be made with the nations and regions to safeguard this local relevance*."[3]

<u>Changes to programme scheduling</u>: We note that the BBC states that it would like the flexibility to reschedule certain non-news programmes at times when they claim they deliver the most audience value. We would like to see evidence provided by the BBC to support the claim that

[2] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0030/248187/fifth-bbc-annual-report.pdf
[3] Page 23, Ofcom consultation document

audiences would be better served if certain long-running programmes were rescheduled outside Peak or near-Peak. Such a strategy could in our view be supported by increased prominence for programmes from Wales on the iPlayer.

Taking the BBC's strategy for non-news output as a whole, while we commend the BBC's ambition to deliver high impact programming for programming commissioned for Wales which will also be shown on the network, we also note Ofcom's point that, "*The reduced number of hours of non-news programming left on the opt-out services could impact the range of genres covered and the focus on network audiences could risk content of exclusive interest to national and regional audiences being deprioritised. While this content may not attract large audiences, high consumption is not the only measure of success and highly distinctive content which is appreciated by a small audience is also valuabl*e." In this context it is worth noting that in its additional submission the BBC notes, for example, its annual coverage of the National Eisteddfod as providing and example of 'key cultural moments' and 'landmark culture and performance.' Although very welcome, this aspect of the BBC's future provision for Wales will need careful evaluation.

In its additional submission the BBC commits to, "*set out the volume and breadth of our programmes of national and regional interest in our Annual Plan each year and report against these in ARA*". This will include setting out planned hours (total and first-run) of current affairs programming for Wales, the planned hours (total and first-run) and example titles for the breadth of other genres to be broadcast for Wales, in terms of 'drama, comedy, arts and cultural topics, and specialist factual content'. The BBC also commits to providing information about titles which will be network portrayal programmes or opt first-runs and an explanation in qualitative terms, of how these titles represent, portray and serve the diverse audiences of the UK. All of these commitments are very welcome and provide important bench-marks for evaluating delivery for viewers in Wales. We are also reassured that the BBC has committed not to reduce its current affairs output for Wales or the amount of sports, arts, music or education programmes to be broadcast. We also agree with Ofcom in welcoming the BBC's confirmation that there will be no change in the breadth of genres provided such as comedy, drama, religious and factual programmes of national interest to viewers in Wales.

We note that some initial analysis has been provided in an additional submission. In that document, the BBC gives as an example the performance of the drama series, The Pact, which had a 24% share in Wales but also an impressive 19% share across the UK. In our view, this is the type of high-quality programming that achieves significant reach and impact as well as fulfilling the desirable outcome and cultural value of providing greater representation and portrayal of the lives of Welsh people on the network.

**Ofcom ACW**
**January 2023**

**Pwyllgor Cynghori Cymru, Ofcom**
**Ymateb i Ymgynghoriad Ofcom ar gais gan y BBC i wneud newidiadau i'r Drwydded Weithredu: Newidiadau Arfaethedig i'r Gofynion ar gyfer BBC Radio 5 Live, BBC Radio 2 a Rhaglenni o Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol.**

**Cyflwyniad**
Sefydlwyd Pwyllgor Cynghori Cymru (ACW) gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a'n prif swyddogaeth yw rhoi cyngor i Ofcom ynghylch buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yng Nghymru mewn perthynas â materion cyfathrebu. Corff anweithredol ydym ni ac mae gennym berthynas 'hyd braich' ag Ofcom. Nid yw Ofcom yn cael ei rwymo'n ffurfiol gan unrhyw gyngor a roddwn. Safbwyntiau'r Pwyllgor Cynghori yw'r safbwyntiau sydd yn y papur hwn yn ac nid ydynt yn cynrychioli barn Bwrdd na staff Ofcom.

Ymatebodd Pwyllgor Cynghori Cymru i ymgynghoriad Ofcom, "Moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC" ym mis Medi 2022 ac roedd ein hymateb yn adlewyrchu ein safbwyntiau blaenorol a gyflwynwyd i Ofcom ym mis Mawrth 2021 mewn perthynas ag ymgynghoriad Ofcom, Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr. Yn y ddau ymateb roeddem yn dadlau y dylai'r gofynion ynghylch allbwn rhaglenni teledu nad ydynt yn rhaglenni newyddion BBC Cymru Wales sy'n cael eu gwneud yn benodol ar gyfer gwylwyr yng Nghymru *"gael eu rhyddhau i wneud penderfyniadau buddsoddi sy'n dod ag ansawdd uwch i'r sgrin, yn hytrach na chael eu clymu bob amser i ofynion darparu ar sail oriau penodol."* Ond roeddem hefyd yn cydnabod y dylai genres hanfodol fel newyddion a materion cyfoes a ddarperir yn benodol ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru gael eu diogelu mewn unrhyw drwydded newydd.

Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad hwn, ar sail cynigion newydd gan y BBC, rydym wedi canolbwyntio'n benodol ar gais y BBC i newid darpariaethau yn y drwydded ddrafft sy'n ymwneud â'r hyn maent wedi'i alw'n 'raglennu o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol'.

Fe wnaethom nodi yn ein hymatebion i'r ymgynghoriad blaenorol fod Trwydded Weithredu bresennol y BBC yn mynnu bod BBC Cymru Wales yn darparu 275 awr o newyddion a materion cyfoes ar BBC One Wales ar gyfer gwylwyr yng Nghymru, ynghyd â 65 awr o raglenni heb fod yn rhaglenni newyddion a 175 awr o raglenni heb fod yn rhaglenni newyddion ar BBC Two Wales. Fe wnaethom nodi hefyd, yn y drwydded bresennol, nad oes raid i'r oriau heb fod yn newyddion fod yn rhaglenni newydd, yn cael eu darlledu am y tro cyntaf. Fodd bynnag, rydym yn croesawu cynnwys gofyniad ar gyfer rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn y drwydded ddrafft newydd sy'n bwysig iawn yn ein barn ni. Fel y nodwyd gennym yn ein hymateb blaenorol, "*bydd y BBC dan bwysau difrifol i arbed costau yn y dyfodol a bydd sicrhau bod rhywfaint o raglenni newydd yn cael eu cynhyrchu ar gyfer Cymru yn gwrthbwyso'r demtasiwn i lenwi'r gwasanaeth gydag ailddarllediadau".*

Yng nghyswllt BBC Cymru Wales, bu i ni awgrymu bod *"y gofynion presennol o ran rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion, yn enwedig ar BBC Two Wales am 175 awr y flwyddyn, yn ymddangos i ni yn uchel iawn ac, yn y dyfodol, mae perygl iddynt wanhau'r gyllideb gynhyrchu sydd ar gael, o ystyried y rhewi presennol ar incwm ffi'r drwydded".* Yn unol â dadansoddiad Ofcom dadleuwyd gennym bod defnyddio iPlayer a gwasanaethau ar-lein eraill y BBC yn debygol o gynyddu, ond y byddai oriau gwylio teledu llinol yn parhau i ostwng, gan ychwanegu *"yn y cyd-destun hwn, gall y gofyniad i gynhyrchu oriau heb fod yn rhaglenni newyddion ar gyfer BBC Two Wales arwain at gynnwys heb gyrhaeddiad ac effaith."*

Felly, rydym yn croesawu dyhead y BBC yn ei ymateb i wella ei raglenni ar gyfer y Gwledydd i fuddsoddi mwy mewn cynnwys lleol uchel ei effaith o ansawdd uchel y gellid ei ddangos ar y rhwydwaith. Er ein bod yn cydnabod, ynghyd ag Ofcom, y gallai'r dull newydd hwn arwain at ostyngiad yn nifer y comisiynau cyllideb is a wneir yn benodol ar gyfer gwylwyr yng Nghymru, rydym yn cytuno â dadansoddiad Ofcom y gallai'r strategaeth newydd hon o bosibl arwain at fanteision sylweddol i wylwyr yng Nghymru ac ar draws y DU. Rydym yn cytuno y gallai'r strategaeth newydd ddarparu, "*gwell portread a chynrychiolaeth o gymunedau ledled y DU drwy gynnwys sy'n cael ei gomisiynu'n lleol, ac argaeledd rhaglenni lleol o ansawdd uchel i'r DU gyfan yn ogystal â'r Gwledydd.*[4]" Mae Ofcom hefyd yn awgrymu y byddai'r strategaeth yn darparu cyfleoedd i gynhyrchwyr annibynnol Cymru drwy gynnig mynediad at fwy o fuddsoddiad a chyllidebau uwch. Fodd bynnag, rydyn ni'n credu y bydd angen mwy o dryloywder i sicrhau bod penderfyniadau comisiynu ar gyfer y cynnwys hwn yn parhau i gael eu gwneud yng Nghymru ac y byddai tariffau sy'n debyg i gyfraddau rhwydwaith yn berthnasol i gynyrchiadau o'r fath lle roedd hi'n amlwg y byddai'r rhaglenni hyn yn cael eu darlledu a'u darparu ar-lein i wylwyr ledled y DU yn ogystal ag yng Nghymru.

**Cwestiwn 3**: *Ydych chi'n cytuno ag asesiad dros dro Ofcom a'i newidiadau arfaethedig i'r Drwydded Weithredu ar gyfer Rhaglenni sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol? Os nad ydych, esboniwch pam os gwelwch yn dda, gan ddarparu tystiolaeth briodol i ategu hynny lle bo modd.*

**Rhaglenni o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol**
Rydym yn croesawu bwriad y BBC i osod targed ar gyfer o leiaf 60% o'i gomisiynau teledu rhwydwaith yn ôl gwariant i'w wneud y tu allan i Lundain erbyn diwedd y Siarter. Rydym yn cytuno y dylai'r nod hwn gynyddu'r gynrychiolaeth a'r portread o gynulleidfaoedd ar draws y DU ar wasanaethau teledu'r BBC. Fel rhan o'r broses hon ac o ystyried y newidiadau mewn ymddygiad gwylwyr a'r symud at fwy o ddefnydd digidol, rydym yn derbyn bod yn rhaid i'r gorfforaeth *"aildrefnu ei gwasanaethau er mwyn cael gwell cydbwysedd rhwng newyddion sy'n cael ei ddarlledu a newyddion ar-lein ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU."*

Fel yr esboniwyd yn gynharach, roeddem wedi cytuno'n flaenorol â chynigion Ofcom yn ei Ymgynghoriad ym mis Mehefin 2022, i ddisodli cwotâu penodol ar gyfer allbwn BBC Cymru Wales heb fod yn rhaglenni newyddion ag amodau cyffredinol a gofynion tryloywder, ac rydym yn credu y dylai'r dull gweithredu llai rhagnodol hwn wasanaethu cynulleidfaoedd yng Nghymru yn well drwy roi mwy o hyblygrwydd i'r BBC addasu ei ddarpariaeth. Mae Ofcom yn awgrymu fel enghraifft y gallai hyn gynnwys darparu llai o oriau o raglenni ar wasanaeth penodol neu ddarparu cynnwys ar iPlayer i'r rheini y mae'n well ganddynt weld cynnwys ar-lein.

**Newyddion o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol ar BBC One Wales**
**Newidiadau i hyd y rhaglen a'r amserlen:** Nid ydym yn credu y bydd y mân newidiadau amserlennu mewn perthynas â bwletinau newyddion a gynigir gan y BBC yn cael effaith sylweddol ar ansawdd y gwasanaeth i wylwyr yng Nghymru nac ar y ddarpariaeth yn ei chyfanrwydd. Mae newidiadau arfaethedig y BBC fel a ganlyn (fel y maent yn berthnasol i'w wasanaethau i Gymru):

[4] Tudalen 5 Dogfen Ymgynghori Ofcom

- Newid yn hyd y bwletin newyddion 10.30pm i Gymru ar BBC One Wales er mwyn lleihau'r gorgyffwrdd rhyngddo a dechrau Newsnight ar BBC Two. (Mae hyd y bwletin eisoes wedi newid i 7 munud ar ôl cael ei gynyddu i 11 munud yn ystod y pandemig.)
- Gollwng un o'r chwe bwletin newyddion bob hanner awr ar gyfer Cymru a ddarlledir yn ystod BBC Breakfast. Yn ôl y BBC, mae cynulleidfaoedd wedi'u canfod yn ailadroddus ac ar gyfartaledd mae gwylwyr yn gwylio'r gwasanaeth brecwast yn ddigon hir i weld dau o'r bwletinau hyn.
- Newid i drefn y slot newyddion 10.30pm ym mis Chwefror 2022 er mwyn i fwletin newyddion Cymru ddechrau ychydig y tu allan i'r Cyfnod Gwylio Brig.

Nodwn y byddai hyn yn golygu gostyngiad o 5 i 6 munud o newyddion i Gymru bob dydd, ond bod y BBC wedi honni y bydd ei wasanaeth newyddion ar-lein i Gymru yn gwella. Hoffem weld rhywfaint o dystiolaeth yn cael ei darparu gan y BBC i gefnogi'r honiad hwn. Fel y nodwyd yn ein hymateb blaenorol, credwn ei bod yn ymddangos bod y gofynion gwasanaeth ar-lein presennol sydd i'w hatgynhyrchu yn y drwydded newydd braidd yn annigonol ac nad ydynt yn cymell arloesi a phosibiliadau o ran cynnwys creadigol newydd.

Yn gyffredinol, gan ystyried y newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth newyddion yng Nghymru, rydym yn cytuno â chynllun Ofcom i fynnu bod y BBC yn cadw golwg a yw ei strategaeth ar gyfer darparu newyddion i bob cynulleidfa yn llwyddiannus. Rydym hefyd yn cefnogi nod Ofcom i gynnal ei ymchwil cynulleidfa ei hun i asesu bodlonrwydd ac agweddau tuag at newyddion yn y maes hwn. O ystyried pwysigrwydd dinesig darpariaeth newyddion y BBC, byddem yn argymell bod rhywfaint o'r ymchwil hwn yn cael ei gynnal gyda gwylwyr yng Nghymru (ynghyd â'r gwledydd a'r rhanbarthau eraill).

Roedd y data a oedd ar gael o Adroddiadau Blynyddol blaenorol Ofcom ar y BBC yn caniatáu i ni weld llai o foddhad ymysg cynulleidfaoedd Cymru (er gwaethaf defnydd uwch), ond mae adroddiad eleni ychydig yn brin o gyfeiriadau lleol. Yng nghyswllt Diben Cyhoeddus 4 (cynrychioli a phortreadu), mae Ofcom yn datgan bod canfyddiad cynulleidfaoedd yng Nghymru nawr yn unol â chyfartaledd y DU, yn hytrach na bod yn fwy anfodlon, fel yn y gorffennol. Ond mae data'r BBC ei hun yn awgrymu bod gwylwyr yng Nghymru yn dal i deimlo ychydig yn llai bodlon. Mae pryder cynyddol hefyd ynghylch cyrhaeddiad y BBC o fewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is[5].

**Rhaglenni cenedlaethol a rhanbarthol heb fod yn newyddion ar BBC One Wales a BBC Two Wales**
Cynyddu buddsoddiad mewn cynnwys sy'n cael mwy o effaith: Rydym yn croesawu uchelgais y BBC, a fynegir yn ei ymrwymiad 'Across the UK' i gomisiynu cyfran fwy o raglenni o Gymru (a'r gwledydd eraill) a fyddai hefyd yn cael eu darlledu ar y rhwydwaith. Nodwn fod y BBC yn honni y byddai cynnwys 'effaith uchel' o'r fath yn cael ei gomisiynu gyda thariffau rhwydwaith. Credwn fod hwn yn ymrwymiad allweddol y byddai angen i Ofcom ei fonitro'n ofalus i sicrhau ei fod yn cyflawni'r amcan hwn. Os gall y BBC gyflawni'r ymrwymiad hwn, yna, yn ein barn ni, byddai hyn yn gwneud iawn am y gostyngiad mewn rhaglenni sy'n cael eu gwneud ar gyfer gwylwyr yng Nghymru yn unig. Byddai angen gwerthuso swm ac ansawdd yr allbwn hwn yn ofalus, gan roi sylw i'w gyrhaeddiad a'i effaith. Fodd bynnag, rydym yn croesawu'r dyhead hwn fel ffordd o ddarparu cynnwys unigryw o Gymru i gynulleidfaoedd yn y DU a darparu mwy o werth ar y sgrin.

[5] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0030/248187/fifth-bbc-annual-report.pdf

Mae Ofcom yn nodi y gallai'r strategaeth wanhau natur unigryw rhaglenni sy'n cael eu cynhyrchu'n benodol ar gyfer y gwledydd dros amser os ydynt hefyd yn cael eu comisiynu ar gyfer cynulleidfaoedd rhwydwaith, gan ddadlau bod y *"cynnwys rhwydwaith effaith uchel y mae [y BBC] yn bwriadu ei gomisiynu neu ei gomisiynu ar y cyd o'r gwledydd a'r rhanbarthau yn dod yn fwy cyffredinol dros amser. Gall ymdrechion i apelio at gynulleidfa ehangach olygu bod y cynnwys hwn yn llai perthnasol i'r wlad neu'r rhanbarth lle caiff ei gomisiynu".* Fodd bynnag, er ein bod yn cydnabod y risg hon, credwn ei bod yn werth ei chymryd os yw'r strategaeth o fudd i wylwyr yn gyffredinol ac yn cynyddu apêl, cyrhaeddiad ac effaith cynnwys a gomisiynwyd yn benodol ar gyfer Cymru. Mae'r BBC yn honni ei fod wedi mynd i'r afael â'r mater hwn drwy sicrhau y bydd *"penderfyniadau comisiynu yn cael eu gwneud gyda'r gwledydd a'r rhanbarthau i ddiogelu'r perthnasedd lleol hwn."*[6]

<u>Newidiadau i amserlenni rhaglenni:</u> Nodwn fod y BBC yn datgan y byddai'n hoffi cael yr hyblygrwydd i aildrefnu rhai rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion ar adegau pan fyddant yn honni eu bod yn darparu'r gwerth mwyaf i'r gynulleidfa. Hoffem weld tystiolaeth yn cael ei darparu gan y BBC i gefnogi'r honiad y byddai cynulleidfaoedd yn cael eu gwasanaethu'n well pe bai rhai rhaglenni sy'n rhedeg ers tro yn cael eu haildrefnu y tu allan i Oriau Brig neu'n agos at Oriau Brig. Yn ein barn ni, gallai strategaeth o'r fath gael ei chefnogi gan fwy o amlygrwydd i raglenni o Gymru ar yr iPlayer.

Gan ystyried strategaeth y BBC ar gyfer allbwn heb fod yn rhaglenni newyddion yn gyffredinol, er ein bod yn cymeradwyo uchelgais y BBC i ddarparu rhaglenni o ansawdd uchel ar gyfer rhaglenni a gomisiynir ar gyfer Cymru a fydd hefyd yn cael eu dangos ar y rhwydwaith, rydym hefyd yn nodi pwynt Ofcom, *"Gallai'r nifer llai o oriau o raglenni heb fod yn rhaglenni newyddion sy'n cael eu gadael ar y gwasanaethau optio allan effeithio ar yr amrywiaeth o genres sy'n cael sylw a gallai'r ffocws ar gynulleidfaoedd rhwydwaith achosi risg y byddai cynnwys o ddiddordeb unigryw i gynulleidfaoedd cenedlaethol a rhanbarthol yn cael ei ddad-flaenoriaethu. Er nad yw'r cynnwys hwn, efallai, yn denu cynulleidfaoedd mawr, nid defnydd uchel yw'r unig fesur o lwyddiant ac mae cynnwys unigryw iawn sy'n cael ei werthfawrogi gan gynulleidfa fach hefyd yn werthfawr."* Yn y cyd-destun hwn, mae'n werth nodi bod y BBC, yn ei gyflwyniad ychwanegol, yn nodi, er enghraifft, ei sylw blynyddol i'r Eisteddfod Genedlaethol fel enghraifft o 'eiliadau diwylliannol allweddol' a 'diwylliant a pherfformiad o bwys.' Er yn cael croeso cynnes, bydd angen gwerthuso'n ofalus yr agwedd hon ar ddarpariaeth y BBC i Gymru yn y dyfodol.

Yn ei gyflwyniad ychwanegol, mae'r BBC yn ymrwymo i, *"nodi swm ac ehangder ein rhaglenni o ddiddordeb cenedlaethol a rhanbarthol yn ein Cynllun Blynyddol bob blwyddyn ac adrodd yn erbyn y rhain yn yr ARA".* Bydd hyn yn cynnwys nodi oriau arfaethedig (cyfanswm a dangosiad cyntaf) rhaglenni materion cyfoes ar gyfer Cymru, yr oriau arfaethedig (cyfanswm a dangosiad cyntaf) a theitlau enghreifftiol ar gyfer yr amrywiaeth o genres eraill a fydd yn cael eu darlledu ar gyfer Cymru, o ran 'drama, comedi, pynciau celfyddydol a diwylliannol, a chynnwys ffeithiol arbenigol'. Mae'r BBC hefyd yn ymrwymo i ddarparu gwybodaeth am deitlau a fydd yn rhaglenni portreadu rhwydwaith neu'n rhaglenni y dewisir eu dangos am y tro cyntaf ac esboniad mewn termau ansoddol o sut mae'r teitlau hyn yn cynrychioli, yn portreadu ac yn gwasanaethu cynulleidfaoedd amrywiol y DU. Mae'r holl ymrwymiadau hyn i'w croesawu'n fawr ac maent yn darparu meincnodau pwysig ar gyfer gwerthuso'r ddarpariaeth i wylwyr yng Nghymru. Rydym hefyd yn dawel ein meddwl bod y BBC wedi ymrwymo i beidio â lleihau ei allbwn materion cyfoes i Gymru na faint o raglenni chwaraeon, celfyddydau, cerddoriaeth neu addysg sydd i'w darlledu. Rydym hefyd yn cytuno ag Ofcom wrth groesawu cadarnhad y BBC na fydd unrhyw newid yn ehangder y genres sy'n cael eu darparu fel

[6] Tudalen 23 Ddogfen Ymgynghori Ofcom

comedi, drama, rhaglenni crefyddol a ffeithiol sydd o ddiddordeb cenedlaethol i wylwyr yng Nghymru.

Nodwn fod rhywfaint o ddadansoddiad cychwynnol wedi'i ddarparu mewn cyflwyniad ychwanegol. Yn y ddogfen honno, mae'r BBC yn rhoi fel enghraifft, berfformiad y gyfres ddrama, The Pact, a oedd â chyfran o 24% yng Nghymru ond a gafodd hefyd ganran drawiadol o 19% ar draws y DU. Yn ein barn ni, dyma'r math o raglenni o ansawdd uchel sy'n cyflawni cyrhaeddiad ac effaith sylweddol yn ogystal â chyflawni'r canlyniad dymunol a'r gwerth diwylliannol o ddarparu mwy o gynrychiolaeth a phortreadu ar fywydau pobl Cymru ar y rhwydwaith.

**Pwyllgor Cynghori Cymru, Ofcom**
**Ionawr 2023**